SESIWN 5: YDY BWYD YN DEG?

Ystod oedran: 7-11 oed

<table>
<tr><td colspan="2">Amlinelliad
Bydd y dysgwyr yn chwarae gêm efelychu “Allwch chi drechu’r system?” i ddatblygu eu dealltwriaeth o’r system bwyd byd-eang a’r bobl sydd ar eu hennill ac sydd ar eu colled. Byddant yn dysgu i uniaethu â phobl y mae’r system bwyd byd-eang yn effeithio ar eu bywoliaethau.</td></tr>
<tr><td>Amcanion dysgu
Bod yn ymwybodol o faterion sy’n gysylltiedig ag anghyfiawnder bwyd.
Deall bod pŵer ac elw yn cael eu dosbarthu’n anghyfartal o fewn y gadwyn gyflenwi.
Dechrau gwerthfawrogi heriau’r system bwyd byd-eang.
Cymryd rhan mewn trafodaethau a chydweithio.</td><td>Deilliannau dysgu
Bydd y dysgwyr yn disgrifio anghyfiawnder bwyd o fewn y gadwyn gyflenwi.
Bydd y dysgwyr yn chwarae gêm efelychu i ddeall yr heriau y mae cynhyrchwyr bach yn eu hwynebu o fewn y system bwyd byd-eang.
Bydd y dysgwyr yn datblygu eu sgiliau cydweithio wrth iddynt weithio fel rhan o dîm mewn gêm efelychu.</td></tr>
<tr><td>Cwestiynau allweddol
Profiadau ffermwyr ar raddfa fach o fewn y system bwyd byd-eang?
Beth sy’n deg am y system bwyd byd-eang?
Beth sy’n annheg am y system bwyd byd-eang?</td><td>Adnoddau
Sioe sleidiau B (Sesiynau 4–6): Sleidiau 7-8
Taflenni gweithgareddau:
Templed cnwd
Sefyllfaoedd grŵp</td></tr>
</table>

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

Gweithgaredd 5.1 *(45 munud+)*

Allwch chi drechu'r system?

- Mae'r gêm efelychu hon yn cyflwyno dysgwyr i'r syniad o system bwyd byd-eang, drwy eu rhoi yn sefyllfa ffermwr ar raddfa fach sy'n cynhyrchu bwyd sy'n mynd i mewn i'r system hon. Trwy wneud hynny, mae'n tynnu sylw dysgwyr at rai o anghydraddoldebau'r system, ac yn eu helpu i feddwl am rai o'r heriau y mae ffermwyr ar raddfa fach yn eu hwynebu o fewn y system hon.

  Adnoddau

  - Un copi o dempled Cnydau fesul grŵp (Taflen gweithgaredd 1)
  - Copïau o senarios y Grŵp (Taflen gweithgaredd 2)
  - Un enghraifft o gnwd wedi'i gwblhau fesul grŵp
  - Un pensil i bob dysgwr
  - Pedair dalen o bapur A4 gwag fesul grŵp
  - Dau siswrn fesul grŵp
  - Dau bensil lliwio fesul grŵp

- Dangoswch y *templed Cnydau* (Taflen gweithgaredd 1). Gofynnwch i'r dysgwyr a ydyn nhw'n gwybod pa fath o fwyd ydyw. Eglurwch ei fod yn cael ei alw'n *indrawn*, cnwd sy'n cael ei dyfu ar lawer o ffermydd ledled y byd.

- Gofynnwch i'r dysgwyr a oes unrhyw un ohonynt wedi bwyta indrawn. Bydd rhai wedi gwneud hynny, ond efallai na fydd llawer yn sylweddoli eu bod wedi ei fwyta. Tynnwch sylw at y ffaith bod corn melys yn fath o indrawn. Gofynnwch i'r dysgwyr a ydyn nhw erioed wedi bwyta *tortillas*. Eglurwch fod indrawn yn cael ei ddefnyddio ar gyfer hyn hefyd. Gofynnwch i'r dysgwyr a oes unrhyw un ohonynt yn bwyta cig eidion. Eglurwch fod indrawn hefyd yn cael ei ddefnyddio fel porthiant i wartheg, felly drwy fwyta cig eidion mae dysgwyr yn bwyta indrawn yn anuniongyrchol. Heriwch y dysgwyr i feddwl a ydynt felly wedi'u cysylltu â'r ffermwyr sy'n tyfu indrawn. Os felly, sut?

- Dangoswch sleid 8 o *Sioe Sleidiau B* a dywedwch wrth y dysgwyr eu bod yn mynd i chwarae gêm i'w helpu i ystyried sut beth yw'r system fwyd fyd-eang ar gyfer newyn ar raddfa fach sy'n tyfu cnydau fel indrawn. Trefnwch y dysgwyr yn grwpiau o bedwar a dosbarthwch y deunyddiau. Eglurwch fod y dysgwyr bellach yn ffermwyr, yn byw mewn gwlad lai datblygedig yn economaidd. Maent yn gwneud bywoliaeth drwy dyfu bwyd (indrawn) i fwyta a gwerthu mewn marchnad leol.

- Eglurwch fod yn rhaid i bob grŵp ddefnyddio'r deunyddiau a ddarperir i greu cymaint o "gnydau" wedi'u cwblhau ag y gallant mewn 10 munud. Fel arall, gellid ymestyn y cyfnod amser hwn gan ddefnyddio un neu fwy o'r awgrymiadau a ddarperir isod.

- Dywedwch wrth y dysgwyr fod yn rhaid tynnu arno a'i dorri allan o'r papur gwag i'r un raddfa a maint â'r templed er mwyn cwblhau cnwd. Efallai y byddwch hefyd am osod "safon ansawdd" ofynnol ar gyfer y cnydau a gynhyrchir, er enghraifft ar gyfer siâp yr indrawn a lliwio taclus. Gall dysgwyr hefyd dorri allan a lliwio yn y cnydau yn y templed i ychwanegu at gyfanswm eu cnwd.

- Eglurwch fod y grŵp sy'n cynhyrchu'r mwyaf o gnydau yn ennill y gêm. Fodd bynnag, efallai y bydd yn rhaid i ddysgwyr ymdopi â newid mewn amgylchiadau yn ystod y gêm a allai effeithio ar eu gallu i gynhyrchu indrawn. Anogwch y dysgwyr i ddefnyddio eu hadnoddau'n ofalus ac i feddwl am sut y bydd eu grŵp yn cydweithio'n effeithiol.

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

- Unwaith y bydd y grwpiau wedi dechrau "cynhyrchu" cnydau, rhowch y gorau i'r gêm ar ôl pump i ddeng munud a rhoi un o'r pum dalen senario bosibl a ddarperir mewn senarios Grŵp (Taflen Weithgaredd 2) i bob grŵp. Rhowch amser i'r dysgwyr ddarllen y senarios a dilyn y cyfarwyddiadau a ddarperir, yna ailgychwynnwch y gêm am bump i ddeg munud arall cyn dod â'r gêm i ben.
- Fel arall, os oes mwy o amser ar gael, rhowch un o'r senarios i bob grŵp yn gyntaf, rhedeg y gêm am bump i ddeg munud arall, yna darparu senario ychwanegol a rhedeg y gêm eto am bump i ddeg munud ychwanegol. Gellid ailadrodd y cam hwn er mwyn galluogi grwpiau i brofi nifer o senarios.
- Cyhoeddwch enw'r tîm buddugol ar ddiwedd y gêm. Dylai hyn fod yn grŵp (neu'n un o'r grwpiau) a brofodd Senario 4 neu 5!
- I drafod, rhowch beth amser i'r dysgwyr fel dosbarth cyfan siarad am sut beth oedd bod yn ffermwr ar raddfa fach yn cymryd rhan yn y system fwyd fyd-eang hon. Ymhlith y cwestiynau trafod posibl y mae:
  - *Sut beth oedd bod yn ffermwr ar raddfa fach yn y system fwyd fyd-eang?*
  - *Beth oedd yn heriol a pham?*
  - *Sut oedd eich grŵp wedi ymdopi ar ôl i'r senarios gael eu cyflwyno?*
  - *Sut oeddech wedi gweithio gyda'ch gilydd i fod yn llwyddiannus?*
  - *Sut oedd y senarios hyn wedi gwneud i chi deimlo?*
  - *Beth oedd yn deg am y gêm, a beth oedd yn annheg?*
- Eglurwch fod y gêm hon yn dangos rhai o'r heriau a'r anghydraddoldebau y mae ffermwyr ar raddfa fach yn eu hwynebu o fewn y system fwyd fyd-eang. Tynnwch sylw at y gwahanol brofiadau a chanlyniadau pan oedd y ffermwyr ar raddfa fach naill ai'n cael eu cefnogi (gan y llywodraeth yn Senario 4 neu gan gorff anllywodraethol (NGO) yn Senario 5) neu heb eu cefnogi (fel yn y senarios eraill). Cyflwynwch y syniad o degwch. A fyddai'r system yn decach pe bai pob ffermwr ar raddfa fach yn cael ei gefnogi?

Gwahaniaethu

- Gwneud pethau'n haws: Rhowch nifer o gopïau i'r dysgwyr o *dempled y Cnwd* (Taflen gweithgaredd 1) i'w lliwio a thorri cnydau allan yn hytrach na gofyn iddynt dynnu llun eu hunain o'r cnydau ar bapur gwag.

Syniadau Pellach

- Dangoswch y clip ffilm: Cipolwg ar y system fwyd doredig yn India (2 funud 39 eiliad): https://www.youtube.com/watch?v=1_8oEWx1gzs. Pa faterion tebyg yn y clip mae dysgwyr yn eu hadnabod o'r gêm? Ymestyn y drafodaeth drwy ofyn i ddysgwyr feddwl am bum ffordd y gellid cefnogi ffermwyr ar raddfa fach ac yna rhannu eu syniadau fel dosbarth cyfan. Noder: Defnyddir y clip ffilm hwn hefyd yn Sesiwn 6.

Telerau defnyddio
Hawlfraint © Oxfam GB
Gallwch ddefnyddio lluniau a gwybodaeth berthnasol yn yr adnodd hwn i ddibenion addysgol yn eich sefydliad addysgol. Bob tro y byddwch yn ei defnyddio, rhaid i chi gydnabod y ffotograffydd sy'n cael ei enwi ar gyfer y ddelwedd honno, ynghyd ag Oxfam. Ni chewch ddefnyddio'r delweddau na'r wybodaeth gysylltiedig i ddibenion masnachol, nac y tu allan i'ch sefydliad addysgol. Mae'r holl wybodaeth sy'n gysylltiedig â'r delweddau hyn yn berthnasol i'r dyddiad a'r adeg y cafodd y gwaith prosiect ei gyflawni.

Templed o Fanana

Taflen Gweithgaredd 1



Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

Sefyllfaoedd Grŵp **Taflen gweithgaredd 2a**

Sefyllfa 1 – Y Newid yn yr Hinsawdd

Cefndir
Mae tymereddau'r byd yn codi oherwydd y newid yn yr hinsawdd. Mae hyn yn golygu y bydd rhai o'ch cnydau yn marw (bydd y cynnyrch yn is). Mewn rhai gwledydd yn Affrica, gallai hanner y cnydau gael eu colli. Cred y rhan fwyaf o bobl y bydd tywydd eithafol fel cyfnodau poeth iawn, sychder a llifogydd yn gwaethygu ac yn digwydd yn fwy aml, a bydd y tymor tyfu yn fwy anodd ei ragweld. Golyga hyn na fyddwch yn gallu tyfu cymaint o fwyd.

Cam Gweithredu
Mae eich ffermdir yn profi llifogydd a chaiff eich cnydau eu dinistrio. Pan fydd y llifogydd yn clirio mae'n cymryd misoedd i chi atgyweirio'r difrod a dechrau cynhyrchu cnydau eto.

Yr hyn y mae'n rhaid i chi ei wneud
Bydd hanner y cnydau yr ydych wedi'u cwblhau yn y gêm hyd yma yn cael eu dinistrio. Rhaid i chi hefyd eistedd ar eich dwylo am 30 eiliad pan fydd y gêm yn ailddechrau.

Sefyllfa 2 – Caiff eich tir ei brynu gan gwmni cyfoethog

Cefndir
Mae cwmnïau cyfoethog yn prynu ffermdir rhad mewn gwledydd tlawd. Weithiau, fodd bynnag, mae'r tir y maent yn ei brynu yn cael ei ddefnyddio gan deuluoedd tlawd ar gyfer tyfu bwyd. Yn aml caiff y teuluoedd hyn eu gorfodi i adael heb lawer o rybudd neu ddim rhybudd o gwbl, ac nid ydynt yn derbyn llawer iawn o arian i wneud iawn am hyn. Weithiau caiff y tir ei ddefnyddio ar gyfer tyfu biodanwydd (planhigion yw'r rhain y mae modd eu llosgi ar gyfer creu ynni) ac yn aml caiff y tir ei adael fel y gall y prynwr ei gadw i'w ddefnyddio'n ddiweddarach.

Cam Gweithredu
Mae hanner y tir rydych yn ei ffermio wedi'i brynu gan gwmni bwyd byd-eang mawr ac nid oes gennych bellach hawl i'w ffermio.

Yr hyn y mae'n rhaid i chi ei wneud
Caiff hanner y papur sydd ar ôl gennych ei dynnu oddi arnoch.

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

Sefyllfaoedd Grŵp **Taflen gweithgaredd 2b**

Sefyllfa 3 – Cynnydd mewn prisiau bwyd

Cefndir
Mae pris bwyd yn cynyddu ar draws y byd ac mae hyn yn effeithio fwyaf ar y bobl fwyaf tlawd. Golyga hyn fod yn rhaid i lawer o deuluoedd wario hyd at 75% o'u harian bob wythnos ar ddim ond bwyd. Os bydd prisiau bwyd yn newid yn sydyn ni all teuluoedd ymdopi. Mae angen i ffermwyr sy'n tyfu bwyd hefyd brynu bwyd, felly mae hyn yn effeithio arnynt hwy hefyd.

Cam gweithredu
Nid oes gennych chi, fel ffermwr, ddigon o arian bellach i brynu bwyd hanfodol na allwch ei dyfu eich hun. Nid oes gennych unrhyw gynilion felly mae'n rhaid i chi werthu'r pethau sydd eu hangen arnoch i ffermio, fel cyfarpar ffermio, er mwyn bod â digon o arian i brynu bwyd.

Yr hyn y mae angen i chi ei wneud
Bydd hanner eich sisyrnau a'ch pensiliau yn cael eu rhoi o'r neilltu.

Sefyllfa 4 – Buddsoddiad gan y Llywodraeth

Cefndir
Mae 500 miliwn o ffermydd ar raddfa fach ar draws y byd sy'n cynnal dau biliwn o bobl. Mae 80 y cant o bobl sy'n llwglyd yn byw mewn ardaloedd gwledig, ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn gweithio ar ffermydd bwyd ar raddfa fach.[1] Mae ffermwyr ar raddfa fach yn cael effaith fawr ar y system bwyd byd-eang. Gall Llywodraethau helpu ffermwyr ar raddfa fach drwy ddarparu arian i helpu i wella dulliau ffermio ac felly gall eu cynnyrch (beth sy'n cael ei dyfu) gynyddu.

Cam Gweithredu
Mae'r Llywodraeth yn rhoi grant (arian) i chi er mwyn cefnogi eich fferm fach. Golyga hyn y gallwch brynu mwy o beiriannau i'ch helpu i blannu a chynaeafu rhagor o gnydau.

Yr hyn y mae angen i chi ei wneud
Byddwch yn derbyn set ychwanegol o sisyrnau, mwy o bensiliau a phapur.

[1] policy-practice.oxfam.org.uk/blog/2013/06/a-call-to-policy-makers-to-support-smallscale-agriculture

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

Sefyllfaoedd Grŵp **Taflen gweithgaredd 2c**

Sefyllfa 5 – Cymorth gan Gyrff Anllywodraethol

Cefndir
Mae cyrff anllywodraethol fel Oxfam yn cefnogi ffermwyr ar raddfa fach mewn prosiectau datblygu hirdymor o fewn ardaloedd gwledig. Mae cyrff anllywodraethol yn cydweithio â chymunedau lleol er mwyn helpu i sefydlu cwmnïau cydweithredol. Golyga hyn y gall pobl o fewn cymunedau rannu peiriannau a helpu ei gilydd i gynaeafu eu cnydau. Gallant hefyd werthu eu cnydau gyda'i gilydd a rhannu'r elw.

Cam Gweithredu
Mae cwmni cydweithredol lleol wedi'i sefydlu yn eich ardal. Golyga hyn y gallwch fenthyca cyfarpar gan ffermwyr eraill neu rannu eich cyfarpar.

Yr hyn y mae angen i chi ei wneud
Byddwch yn derbyn set ychwanegol o sisyrnau. Gallwch rannu eich cyfarpar gyda grŵp arall (mae'n rhaid i'r grŵp hefyd fod â *Sefyllfa 5, Cymorth gan Gyrff Anllywodraethol*) neu ddod ynghyd os ydych yn dymuno gwneud hynny.

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.